Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**20 Gorffennaf 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)**
Awdur yr Adroddiad	**Jacquie Chan (GwE), Mair Herbert (GwE), James Brown (CSDd) a Ruth Thackray (CSDd)**
Teitl	**Diweddariad Cwricwlwm i Gymru 2023**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gan ysgolion ers i'r Cwricwlwm i Gymru ddod yn statudol i holl ddysgwyr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd hynny a ddewisodd ddechrau ym Mlwyddyn 7, ym Medi 2022. Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnig gwybodaeth ar sut mae ysgolion uwchradd a lleoliadau wedi bod yn paratoi i gychwyn addysgu'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynyddoedd 7 ac 8 o Fedi 2023 yn unol â'r amserlen gyflwyno genedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I roi gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith mae ysgolion wedi ei wneud fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, yn unol â disgwyliadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnir gwahoddiad i Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i nodi unrhyw agwedd ar y gwaith Cwricwlwm i Gymru a fyddai'n elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

4. Manylion yr adroddiad

Cyd-destun

4.1 Ym Medi 2022, daeth y Cwricwlwm i Gymru yn statudol i holl ddysgwyr o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Rhoddwyd y cyfle i ysgolion uwchradd i ddechrau gyda Blwyddyn 7 ym Medi 2022; dewisodd un ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych dderbyn y cynnig. Bydd bob ysgol uwchradd a lleoliad yn dechrau gyda'r Cwricwlwm i Gymru ym mlynyddoedd 7 ac 8 ym Medi 2023. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn fframwaith genedlaethol gyda'r Pedwar Diben fel y weledigaeth a rennir. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar yr egwyddorion o ddilyniant i holl ddysgwyr ac yn gofyn i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm lleol eu hunain yn seiliedig ar eu dysgwyr a'r gymuned.

Ysgolion Cynradd

4.2 Mae bob ysgol wedi dylunio eu cwricwlwm yn unol â'r Pedwar Diben ac i fodloni gofynion gorfodol Cwricwlwm i Gymru ac, o ganlyniad, mae ganddynt gynnig cwricwlwm cytbwys i fodloni anghenion holl ddysgwyr. Mae dogfennau crynhoi cwricwlwm wedi eu datblygu gan bob ysgol ac ar gael i rieni a'r gymuned leol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

4.3 Mae bob ysgol yn gweithredu eu cynlluniau datblygu i wireddu'r cwricwlwm newydd. Mae arweinwyr yn gwerthuso pa mor dda mae'r cynlluniau hynny wedi eu cyflwyno ac yn defnyddio'r dystiolaeth honno i adnabod blaenoriaethau ar gyfer yr ysgol yn y flwyddyn nesaf.

4.4 Mae'r awdurdod lleol wedi sicrhau bod holl gefnogaeth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorion y daith i weithredu'r cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Mae'r gefnogaeth hon trwy drafodaeth broffesiynol reolaidd gydag Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant bob ysgol ac amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar lefel clwstwr ac ysgol unigol. Mae'r rhwydwaith wedi rhannu eu hymarfer trwy ganolfan gefnogaeth GwE ac yn fwy diweddar digwyddiad rhannu marchnadle yn Llandudno i'r holl ysgolion rhanbarthol ble roedd ymarferwyr o ysgolion Sir Ddinbych yn cyflwyno a rhannu eu gwaith.

4.5 Bu canolbwynt cryf ar ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol fel rhan o Gwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn wedi golygu creu cyfleoedd rheolaidd i

athrawon gyd-gynllunio enghreifftiau a modelau cwricwlwm i'w rhannu ar draws ysgolion. Mae nifer o ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol o'u pecyn gwaith i rai 3-8 oed trwy fynychu rhwydweithiau tymhorol, sesiynau rhanbarthol a hyfforddiant clwstwr pwrpasol. O ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â gostwng amrywiaeth o fewn ysgolion.

4.6 Mae datblygu cydweithio yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer bob ysgol yn Sir Ddinbych. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi ymrwymo i ddatblygu adolygiad cyfoedion i werthuso arweinyddiaeth a darpariaeth cwricwlwm trwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Mae ysgolion yn cydweithio i hunanwerthuso eu hymarfer ac ansawdd eu cynllunio gwelliant. Hefyd, mae pob clwstwr o ysgolion wedi datblygu a chyflwyno cynlluniau trosiannol, gan gymryd rhan mewn cyfleoedd trafodaeth broffesiynol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o asesiad a dilyniant gyda chyfoedion o fewn ac ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.

4.7 Yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol hwn, mae ysgolion wedi adnabod pwysigrwydd cynllunio dysgu proffesiynol rheolaidd, strwythuredig i holl staff a llywodraethwyr. Mae cael gweledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru trwy ymgysylltu â dysgwyr, rhieni a'r gymuned leol hefyd o bwysigrwydd gan fod hyn yn rhoi cyfeiriad clir ar gyfer dylunio'r cynnig cwricwlwm lleol. Mae nifer o ysgolion yn rhannu ymarfer newydd ble gall dysgwyr ddefnyddio ystod o sgiliau mewn cyd-destunau lleol ystyrlon. Mae dealltwriaeth hefyd y bydd datblygu'r cwricwlwm yn broses barhaus ac yn esblygu dros amser, wrth i ysgolion fonitro, gwerthuso a mireinio eu darpariaeth cwricwlwm gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau.

4.8 Wrth ystyried meysydd ar gyfer datblygiad pellach, mae ysgolion wedi canfod meysydd megis parhau i ddatblygu a mireinio eu darpariaeth cwricwlwm i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr i gefnogi lles a gostwng effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, datblygu eu harferion asesu a dilyniant, a pharatoi ar gyfer y newidiadau a nodir yn y canllawiau gwella ysgol newydd: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn barod i'w weithredu ym Medi 2024.

Ysgolion Uwchradd

4.9 Un ysgol uwchradd wedi dewis cyflwyno'r cwricwlwm newydd i flwyddyn 7 ym Medi 2023. Bydd saith ysgol uwchradd a dwy ysgol arbennig yn cyflwyno i flynyddoedd 7 ac 8 ym Medi 2023. Mae gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod gweithredu yn yr ysgol uwchradd a ddechreuodd gyflwyno'r cwricwlwm newydd o Fedi 2022 wedi eu rhannu. Mae'r wyth ysgol wedi eu cefnogi gan GwE trwy amrywiaeth o strategaethau cyffredinol, pwrpasol a chydweithredol.

4.10 Roedd Tîm Arweinyddiaeth a llywodraethwyr yr ysgol uwchradd a ddechreuodd gyflwyno'r cwricwlwm newydd o Fedi 2022 yn awyddus i ddechrau cyflwyno yr un pryd â'r clwstwr cynradd i elwa o gyfleoedd i gydweithio a dysgu gyda'i gilydd, a bu iddynt weithio gyda dysgwyr, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i ddatblygu'r weledigaeth a'r gwerthoedd i gefnogi pedwar diben Cwricwlwm i Gymru.

4.11 Mae'r ysgol wedi adolygu a gwerthuso'r cynllun cwricwlwm wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, gan gymryd ystod eang o safbwyntiau i ystyriaeth. Maent yn ymwybodol bod cyfleoedd i ddatblygu dysgwyr annibynnol ymhellach. Mae cynlluniau wedi eu haddasu i sicrhau bod ymarfer gorau yn cael ei gydnabod a'i rannu.

4.12 Mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gydag eraill i rannu ymarfer gorau i gynllunio ar gyfer cynnydd, asesu ac adrodd. Maent wedi derbyn ystod o gyfleoedd i ddysgu gan eraill a derbyn cefnogaeth. Mae'r Dirprwy Bennaeth wedi rhannu ei phrofiadau gyda'r ysgolion yn y gynghrair ac eraill gan gynnwys yn y Dathliad GwE rhanbarthol a gynhaliwyd ar 22 Mehefin.

4.13 Mae aelodau o'r tîm GwE wedi cynnal adolygiad cyflym a hefyd wedi arsylwi ar wersi ym mlwyddyn 7. Bu iddynt weld dull rhagweithiol o ddysgu ac addysgu, gyda chynllunio da a lefelau uchel o ymgysylltu. Bydd enghreifftiau o waith dysgwyr yn cael eu harddangos i rieni, dysgwyr Blwyddyn 6 ac eraill mewn digwyddiad arddangos ddiwedd Mehefin.

4.14 Mae GWE wedi rhoi ystod eang o gefnogaeth i ysgolion ar bob cam o'r daith weithredu eleni, gan gynnwys cynadleddau i rannu ymarfer newydd, cefnogi clystyrau a chynghreiriau i gyd-ddatblygu cynlluniau megis rhai ar gyfer asesu a

chynllunio ar gyfer datblygu, gweminarau a gweithdai i gefnogi i ddatblygu dysgu ac addysgu, adborth a dulliau addysgeg.

4.15 Roedd cyllid ar gael i bob clwstwr a chynghreiriau ysgolion uwchradd i gefnogi eu cydweithio yn 2023/24, i barhau i ddatblygu dulliau o gynllunio, datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddatblygiad ac adrodd i rieni ar gynnydd, camau nesaf mewn dysgu a ffyrdd y gall rhieni a gofalwyr gefnogi dysgu eu plentyn. I gefnogi hyn mae cynllun cefnogi yn cynnwys cefnogaeth bwrpasol i bob ysgol ar yr agweddau penodol a flaenoriaethwyd ar gyfer sylw o fewn cynllun gwella'r ysgol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a gyda'r sgiliau i wneud hynny fel nodir o fewn y Pedwar Diben. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn le ble gall pobl ifanc ddysgu a gwneud cynnydd da yn eu sgiliau, dysgu mewn amgylchedd teg a diogel. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod bob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni fydd cyflwyno'r Cwricwlwm Newydd yn cael llawer o effaith ar wasanaethau eraill. Bydd yr awdurdod lleol (ALl) yn parhau i drafod gyda GwE i ddefnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi ysgolion i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bydd angen Asesiad o Effaith ar Les fel arfer ar gyfer penderfyniadau neu gynigion am newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Trwy drafod gyda GwE, mae trafodaeth reolaidd gyda chydweithwyr ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru i gasglu adborth ac adnabod agweddau ar gyfer trafodaeth a datblygiad pellach. Mae craffu wedi cael adroddiad yn flaenorol ar weithredu Cwricwlwm i Gymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd costau yn cael eu cwrdd o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion, cyllideb addysg a hefyd cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gweithredu Cwricwlwm i Gymru yn cael ei adolygu gan Estyn fel rhan o'u gwaith archwilio. Mae'r awdurdod lleol a GwE eisoes yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn monitro a chefnogi ysgolion i'w weithredu, ac felly yn lleihau'r risgiau cysylltiedig.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Adrannau 7.3, 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor